COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 20 TACHWEDD 2019, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett |
| MC Clarke | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| PA Davies | SK Dendy | DK Edwards | J Gebbie |
| T Giffard | RM Granville | DG Howells | A Hussain |
| M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis |
| JR McCarthy | D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella |
| JC Radcliffe | KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw |
| CE Smith | JC Spanswick | RME Stirman | G Thomas |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables | SR Vidal |
| MC Voisey | LM Walters | KJ Watts | CA Webster |
| DBF White | PJ White | AJ Williams | HM Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Davies, CA Green, RM James, B Jones, SG Smith, A Williams a/ac JE Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kevin Stephens | Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |

370. DATGANIADAU BUDDIANNAU

Dim

371. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 23 Hydref 2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

372. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Rhoddodd y Maer hysbysiad i'r Cyngor ynghylch ei weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys mynychu gwobrau gwirfoddolwyr BAVO, sy'n dathlu'r bobl leol hynny sy'n cyfrannu eu hamser er budd eraill yn y gymuned. Cafodd y fraint o gyflwyno gwobr Gwirfoddolwr Chwaraeon y Flwyddyn i Shannie Bowen, sy'n cynnal cyfarfodydd wythnosol gydag arweinyddion Pobl Ifanc Egnïol Maesteg trwy gydol y flwyddyn ysgol, gan eu helpu gyda'u llyfrau gwaith, eu cefnogi â'u cynnydd, a threfnu lleoliadau gwaith.

Roedd enwebiadau ar gyfer Gwobrau Dinasyddiaeth Flynyddol y Maer bellach yn cael eu derbyn, a'r gwobrau yn agored i bobl sy'n byw yn y fwrdeistref sirol, yn ogystal â grwpiau a busnesau lleol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan CBS Pen-y-bont ar Ogwr a gellir lawrlwytho ffurflen enwebu. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau yw 24 Ionawr, a bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn digwyddiad ym mis Mawrth.

Cafodd y Maer yr anrhydedd o gynrychioli'r Awdurdod yn nigwyddiad Sul y Cofio a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan osod torch ar ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr a'i thrigolion.

Cyhoeddodd y Maer fod y digwyddiad "Music with the Mayor" cyntaf, a gynhaliwyd yn Court Colman ar 10 Tachwedd, wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gan gasglu £1,300 ar gyfer elusen y Maer.

Atgoffodd y Cynghorwyr y byddai'n casglu ar gyfer y banc bwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr. Gall cynghorwyr hefyd ddod â'u calendrau adfent gwrthdro fel bo modd i'r banc bwyd eu casglu, ac anogodd bawb i gymryd rhan.

Cyhoeddodd hefyd fod uned newydd-anedig Ysbyty Tywysoges Cymru wedi derbyn gwobr bwysig gan UNICEF, am y cymorth y mae'r Uned yn ei roi i famau a babanod. Dywedodd fod yr Uned ar flaen y gad yng Nghwm Taf ac yng Nghymru hefyd.

Dirprwy Arweinydd

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd hysbysiad i'r aelodau ynglŷn â'r ystod eang o ddigwyddiadau lleol a gynhelir ledled y fwrdeistref fel bo modd iddynt roi gwybod i'w hetholwyr. Bydd digwyddiadau'n dechrau ar 22 Tachwedd pan fydd grŵp Casglu Arian Marie Curie Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl yn cynnal noson o grefftau, caneuon, a lluniaeth yn Eglwys Unedig Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â pherfformiad gan y grŵp corawl Sounds Familiar. Bydd 'Nadolig Gwyn' blynyddol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei gynnal ar 23 Tachwedd, pan fydd Siôn Corn yn teithio o ganol y dref i'w groto yn Carnegie House, ac yna'n cynnau goleuadau'r dref. Gall plant ymweld ag ef yn ei groto ar 30 Tachwedd, ac ar 7 a 14 Rhagfyr.

Bydd Parêd Jingle Bell Porthcawl yn cael ei gynnal ar 29 Tachwedd gyda cherddoriaeth fyw gan fand pres, stondinau bwyd, reidiau i blant, a llwyfan Bridge FM, ac yn y Grand Pavilion y Grand bydd Only Men Aloud yn cyflwyno A Merry Little Christmas.
Ar 30 Tachwedd, bydd Gorymdaith Nadolig Maesteg yn cynnal arddangosfa tân gwyllt a'n cynnau'r goleuadau Nadolig, a bydd yr unig Santa Gwyrdd yn Ne Cymru ym Mharc Gwledig Bryngarw, bydd yno ar 1 Rhagfyr hefyd. Ar 7 Rhagfyr, bydd llwybr y ceirw pren yn agor ym Mharc Gwledig Bryngarw a bydd gofyn i blant helpu Siôn i ddod o hyd i'r ceirw coll. Bydd y ceirw hefyd ar goll ar 7, 8, 14 a 15 Rhagfyr. Bydd Crefftau Arfordirol Nadoligaidd yng Nghanolfan Chwaraeon Dŵr Rest Bay ar 8 Rhagfyr, a bydd digwyddiad Craceri Nadolig Porthcawl sy'n cynnwys marchnad Nadoligaidd, stondinau bwyd stryd, reidiau i blant, groto Siôn Corn, band pres, a mwy. Rhwng 14 Rhagfyr a 5 Ionawr, bydd y Grand Pavilion yn cynnal pantomeim Snow White, a bydd y nofio blynyddol yn digwydd ar Ddydd Nadolig ei hun. Cyhoeddodd y bydd y digwyddiad yn 55 oed eleni, a'i fod n cael ei gynnal er budd i Gymdeithas Alzheimer Cymru. Y thema eleni yw 'A Trip Down Memory Lane', a bydd disgwyl i'r nofwyr yn gwisgo fel atgof Nadolig.

Aelod Cabinet Cymunedau

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r ymdrechion parhaus i hyrwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog, gyda'r elfen ddiweddaraf yn cynnwys sefydlu cynllun gwarantu cyfweliadau i gyn-filwyr. Dywedodd wrth yr Aelodau

fod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyflwyno gwobr efydd i'r Cyngor fel rhan o'u Cynllun Cydnabyddiaeth i Gyflogwyr Amddiffyn. Mae'r cynllun yn cydnabod ymrwymiad a chefnogaeth cyflogwyr y DU i bersonél amddiffyn, ac mae'n cyflwyno gwobrau efydd, arian, ac aur i gyflogwyr sy'n cefnogi'r rhai sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Aelod Cabinet Gwasanaeth Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod Llywodraeth Cymru, wrth baratoi ar gyfer pwysau anochel a roddir ar ysbytai yn y gaeaf, wedi dyrannu cyfanswm o £4.3m i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, bydd £2.7m o'r ffigwr yn cael ei ddefnyddio mewn partneriaeth â sefydliadau yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod cydweithio'n agos â phob un o'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth er mwyn adnabod cynigion sydd wedi'i dylunio i ddatrys y broblem sylweddol hon. Ar ôl ystyried y ceisiadau ar draws y rhanbarth, roedd yn falch o gadarnhau bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael £600,000. Caiff yr arian ei ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth gymunedol, gan gynnwys y Tîm Amlasiantaethol Brys, ynghyd â buddsoddiad yn y trydydd sector i gynyddu eu gallu i gefnogi'r ddarpariaeth gymunedol o wasanaethau. Bydd yn cael ei ddefnyddio hefyd i gynyddu capasiti o fewn y gwasanaethau a'r timau sy'n bodoli eisoes, ac ar gyfer ffyrdd newydd o weithio gyda'n darparwyr gofal cartref.

Cyhoeddodd hefyd fod £250,000 pellach wedi'i ddyrannu i gynyddu niferoedd gwelyau, i alluogi dulliau newydd o weithio integredig sy'n cynyddu capasiti, i atal unrhyw dderbyniadau diangen i Ysbyty Tywysoges Cymru, ac er mwyn gyflymu rhyddhau lle bo'n briodol.

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod ymgyrch flynyddol y Cyngor i gael rhieni sydd â'u plant wedi gadael cartref i ystyried bod yn ofalwyr maeth. Ar yr adeg yma o'r flwyddyn, gallai rhai rhieni deimlo effaith yr hyn a elwir yn 'Syndrom Nyth Gwag', ac mae ymchwil wedi dangos y gallai arwain at iselder a cholli pwrpas. Dywedodd fod y Cyngor yn awyddus i rieni fyfyrio ar eu dyheadau hirdymor, ac i fod yn ymwybodol o ba mor werthfawr y gallent fod i blentyn maeth. Fel pobl sydd eisoes wedi magu eu plant eu hunain, maent yn meddu ar y profiad a'r sgiliau bywyd angenrheidiol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr.

Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol fod y Gist Gymunedol, ers bron i 20 mlynedd, wedi buddsoddi mwy na miliwn o bunnoedd mewn chwaraeon ar lawr gwlad ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Menter gan Chwaraeon Cymru yw hon sy'n darparu grantiau o hyd at £1,500 i grwpiau cymunedol, clybiau chwaraeon, a chlybiau ieuenctid cymwys. Hysbysodd y Cyngor fod arian grant o'r fath yn rhan hanfodol o'r cymorth sy'n cynnal clybiau, yn enwedig o ystyried yr ymdrechion diweddar i sicrhau dyfodol chwaraeon cymunedol yn yr hir dymor drwy annog mwy o drosglwyddo asedau cymunedol, ac yn wyneb heriau cyllidebol parhaus.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol wybod i'r Cyngor am y grwpiau a oedd wedi elwa'n ddiweddar o arian y Gist Gymunedol, gan gynnwys Every Link Counts, i sefydlu clwb Boccia ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu, Clwb Canŵio Maesteg a Chlwb Canŵio Pen-y-bont ar Ogwr, a ddefnyddiodd eu cyllid i hyfforddi ac i brynu offer ar gyfer aelodau iau a phobl ag anableddau. Mae Clwb Pêl-rwyd Pen-y-bont ar Ogwr wedi defnyddio arian cist gymunedol i annog mwy o ferched i ymuno mewn chwaraeon ac i sicrhau eu bod yn gallu symud o lefel iau i'r lefel oedolion. Mae'r arian hefyd wedi cefnogi hyfforddi hyfforddwyr, dyfarnwyr, a swyddogion cymorth cyntaf, offer

a chostau llogi cyfleusterau a mwy. Anogodd yr Aelodau i hybu timau chwaraeon a chlybiau lleol i ddysgu mwy am sut y gall cynllun ariannu'r Gist Gymunedol eu cefnogi. Y dyddiad cau ar gyfer y rownd nesaf o geisiadau am gyllid fydd 27 Tachwedd, gyda'r manylion ar gael ar wefan Cist Gymunedol Chwaraeon Cymru neu trwy gysylltu â'r swyddog datblygu chwaraeon, Andrew Jones.

Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal trafodaethau ag Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig ynghylch prydles reoli hirdymor ar gyfer Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig. Dywedodd fod y Cyngor wedi bod yn gweithio tuag at drosglwyddo rheolaeth y safle ers bron i ddegawd bellach, a'i fod wedi bod yn cefnogi'r Ymddiriedolaeth wrth iddi geisio penodi sefydliad newydd a all barhau â'r gwaith hwn ar ôl i'r brydles gael ei dychwelyd ar 31 Rhagfyr 2019. Hysbysodd y Cyngor fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â gwiriadau 'diwydrwydd dyladwy' ar ôl dod i'r casgliad mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i reoli'r buddiannau cadwraeth ar y safle. Roedd yn cydnabod ac yn diolch i bawb a oedd wedi gweithio yn y Warchodfa neu sydd wedi gwirfoddoli yno tra'r oedd wedi ei reoli gan y Cyngor.

Fe wnaeth yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio longyfarch disgyblion yn Ysgol Gynradd Corneli, Ysgol y Ferch o'r Sgêr, a'r Ganolfan Integredig i Blant am gynnig help llaw i fabanod yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig. Dywedodd fod y babanod angen ystafell ddosbarth newydd ar ôl i bibell dorri a'u gadael heb wres ac angen atgyweiriadau helaeth. Dywedodd fod eu cyd-ddisgyblion wedi ymgyrchu i wneud lle iddynt tra bod y gwaith yn cael ei wneud.

Prif Weithredwr

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod nifer o staff y Cyngor wedi cael eu cydnabod gan Wobrau Heddlu De Cymru ar ôl ennill Gwobr Partneriaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am 2019. Cyflwynwyd y wobr am eu hymdrechion fel rhan o'r Grŵp Adolygiad ac Ymateb Hunanladdiad. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r timau Cyfathrebu, Diogelu ac Addysg, a Chymorth i Deuluoedd, ac mae'n dod â chydweithwyr o'r Cyngor, o iechyd, yr heddlu, a sefydliadau'r trydydd sector ynghyd. Mae'r grŵp yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cymorth penodol sydd wedi'i gynllunio i helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau sy'n cefnogi lles meddyliol, gan atal hunan-niwed a hunanladdiad. Llongyfarchodd y staff ar eu hymdrechion.

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr hefyd fod y staff hefyd wedi trefnu cynllun casglu ar gyfer Banc Bwyd Nadolig i gefnogi teuluoedd lleol ac unigolion sy'n wynebu caledi. Drwy gydol yr wythnos nesaf bydd lleoliadau casglu yn cael eu sefydlu yng nghegin a mannau egwyl y staff yn y Swyddfeydd Dinesig, a bydd rhestr o eitemau bwyd a rhai eraill y mae eu hangen ar frys yn cael eu dosbarthu fel rhan o'r e-bost wythnosol i'r holl staff. Roedd hwn yn cael ei drefnu erbyn y Nadolig, yn ogystal â chasgliad Banc Bwyd parhaus y Maer.

373. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod cyfres o ddigwyddiadau Wythnos Genedlaethol Diogelu wedi'u cynnal ledled Cymru, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r ffurfiau gwahanol o gam-drin, a sut y gall pobl gael gafael ar gymorth a chefnogaeth. Er mwyn dangos sut y gallai unrhyw un adnabod arwyddion o gam-drin a helpu i hyrwyddo diogelu, dywedodd fod plant ysgol lleol yn cymryd rhan drwy roi cerrig mân wedi'u paentio'n arbennig mewn parciau a mannau cyhoeddus ar draws y fwrdeistref sirol. Roedd y Cyngor wedi ymuno ag ystod o wahanol sefydliadau i helpu i nodi'r wythnos, ac i gynnal digwyddiadau

gwybodaeth ochr yn ochr â Barnardos, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Gwasanaeth Lles Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, a Telecare.

Dywedodd wrth y Cyngor y byddai gweithdrefnau diogelu newydd Cymru yn cael eu lansio i roi arweiniad i ymarferwyr, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi penodol a oedd yn rhoi sylw i'r defnydd o offer megis y rhaglen 'Bright Sky', a gynlluniwyd i roi cymorth a gwybodaeth i unrhyw un a all fod yn cael eu cam-drin yn ddomestig, yn rhywiol, yn cael eu dilyn, neu'n cael eu haflonyddu, neu'n adnabod rhywun sy'n dioddef. Diolchodd i bawb a gyfrannodd ac i bawb a helpodd i drefnu hyn oll, yn enwedig Aelodau Canolfan Ddiogelu Aml-asiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod WEPA UK Ltd wedi cysylltu â'r Cyngor. Maent yn archwilio nifer o opsiynau ar hyn o bryd i wella eu gweithrediadau Ewropeaidd, sy'n cynnwys Melin Bapur Pen-y-bont ar Ogwr yn Llangynwyd. Byddai'r cynigion ar gyfer y safle yn cynnwys adeiladu a gweithredu ail beiriant hancesi papur, cynyddu capasiti trosi mewn estyniadau newydd i adeiladau, ardaloedd trin a danfon newydd, yn ogystal â mynedfa newydd ar ochr dde-ddwyreiniol y safle. Os caiff ei gymeradwyo, bydd yr estyniad yn diogelu'r 267 o swyddi presennol ar y safle ac yn creu hyd at 74 o swyddi newydd o ansawdd uchel yn ogystal â dod â buddsoddiad i'r economi leol. Mae WEPA yn amcangyfrif y byddai buddsoddiad mewnol o fwy na £100m yn cael ei gynhyrchu trwy ehangu'r Felin Bapur, a byddai hefyd yn arwain at effaith gadarnhaol ar y gadwyn gyflenwi. Roedd wedi derbyn cais i gyfarfod â WEPA i glywed am eu cynlluniau. Mae WEPA wedi cychwyn y cyfnod ymgynghori cyn-gais statudol o 28 diwrnod gan y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer hyn. Bydd y cais cynllunio yn cael ei ystyried yn yr un modd ag y bydd unrhyw gais cynllunio yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod, gan ddefnyddio ei gynlluniau a'i bolisïau statudol.

Cyhoeddodd yr Arweinydd hefyd ei fod yn edrych ymlaen at weld y math newydd o drenau a fydd yn gwasanaethu llinell reilffordd Maesteg o fis Rhagfyr, rhai a fydd â llawer mwy o gapasiti, mwy o ofod, systemau gwybodaeth i deithwyr, toiledau hygyrch, aerdymheru, Wi-Fi, a socedi pŵer. Bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cyflwyno'r trenau newydd ar reilffyrdd Cheltenham a Glynebwy, gan ddarparu lle i hyd at 6,500 yn fwy o bobl bob wythnos o fis Rhagfyr eleni. Bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cyflwyno gwasanaeth ar y Sul am y tro cyntaf ar linell Maesteg ac roedd yn edrych ymlaen at glywed mwy am gynlluniau i wneud y gwasanaeth yn fwy aml.

374. SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2020-21

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 ar fanylion sylfaen y dreth gyngor ac amcangyfrif o'r gyfradd gasglu ar gyfer 2020-21.

Dywedodd mai'r amcangyfrif o sylfaen y dreth gyngor ar gyfer 2020-21 oedd 55,604.38, eiddo cyfwerth â Band D, a'r gyfradd gasglu amcangyfrifedig yw 98%. Felly, roedd sylfaen net y dreth gyngor yn 54,492.29. Dywedodd fod Sylfaen y Dreth Gyngor yn cael ei darparu i Lywodraeth Cymru ac yn cael ei defnyddio fel rhan o ddosbarthiad y Grant Cynnal Refeniw yn y Setliad Llywodraeth Leol. At ddibenion dosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw, tybir bod cyfraddau casglu yn 100%. Cyfrifir swm y Dreth Gyngor sy'n ddyledus am annedd ym mand D drwy rannu'r gofyniad cyllideb blynyddol a gaiff ei ariannu gan drethdalwyr gyda sylfaen y dreth gyngor. Dywedodd wrth y Cyngor y bydd elfen treth gyngor cyllideb y Cyngor yn seiliedig ar sylfaen y dreth gyngor net o 54,492.29.

Holodd aelod o'r Cyngor a yw'r gyfradd gasglu o 98% yn cael ei gyrraedd. Dywedodd Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 fod y gyfradd gasglu o 98% yn cael ei chyflawni, roedd perfformiad wedi gostwng yn gynt na'r gyfradd gasglu a gwneir pob ymdrech gan swyddogion i sicrhau'r gyfradd gasglu darged.

PENDERFYNWYD: Fod y Cyngor yn:

(1) Cymeradwyo sylfaen y dreth gyngor a'r gyfradd gasglu ar gyfer 2020-21, fel y dangosir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

(2) Cymeradwyo'r seiliau treth ar gyfer yr ardaloedd cymunedol a nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

375. ADOLYGIAD O'R CYFANSODDIAD A GWELLIANNAU I'R CYFANSODDIAD

Rhoddodd y Swyddog Monitro adroddiad ar ganfyddiadau'r Gweithgor Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gan geisio cymeradwyaeth ar gyfer gwelliannau i'r cyfansoddiad.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod cais wedi dod i law gan Aelod Etholedig am adolygu'r Cyfansoddiad. Yn unol ag Erthygl 15 y Cyfansoddiad bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac yn adolygu gweithrediad y Cyfansoddiad er mwyn sicrhau bod nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael yr effaith lawn. Bydd angen i'r Cyngor gymeradwyo unrhyw newidiadau yn seiliedig ar argymhellion y Swyddog Monitro.

Gofynnodd yr adolygiad o'r Cyfansoddiad i'r canlynol gael eu hystyried yn enwedig:

1) Dylai'r cyfnod amser ar gyfer cwestiynau a chynigion gael ei ail-osod ar 5 diwrnod, gan fod adnoddau addas ar gael bellach i ganiatáu cyfieithu amserol i'r Gymraeg;

2) Yn dilyn cyflwyniadau a chyhoeddiadau Aelodau'r Cabinet, yr Arweinydd, a'r Prif Weithredwr, am gyfnod o 15 munud y caiff Aelodau ofyn cwestiynau nad ydynt wedi'u cyflwyno o flaen llaw;

3) Bod y tri grŵp gwrthblaid mwyaf, yn cael 3 munud (wedi'u cymryd o Reol 3 munud y Pwyllgor Rheoli Datblygu) i wneud cyhoeddiadau neu gyflwyniadau i'r Cyngor;

4) Amseriad cyfarfodydd y Cyngor

Adroddodd y Swyddog Monitro fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi sefydlu Gweithgor Cyfansoddiad Trawsbleidiol i adolygu'r cyfansoddiad, a oedd wedi cyfarfod ddwywaith.

Argymhellodd y Gweithgor y dylai'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cwestiynau a chynigion barhau i fod yn 10 diwrnod gwaith. Ychwanegodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylid plismona cwestiynau atodol yn gliriach er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r cwestiwn gwreiddiol a'u bod yn fyr ac yn gryno. Argymhellodd y Gweithgor, o ystyried y cyhoeddiadau a wnaed yn y Cyngor, y dylid diwygio'r cyfansoddiad er mwyn ail-enwi Adroddiad yr Arweinydd i fod yn Gyhoeddiadau'r Arweinydd, ac y dylid byrhau'r cyhoeddiadau a wnaed gan y Cabinet ar hyn o bryd. Argymhellodd y Gweithgor y dylai pob aelod o'r Cyngor dderbyn atebion i gwestiynau ysgrifenedig 24 awr cyn cyfarfod y Cyngor lle y bo'n ymarferol. Bydd yr ateb yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw o'r Cyngor. Roedd y Gweithgor o'r farn y gallai cyhoeddiadau gan Arweinwyr Grwpiau'r Gwrthbleidiau arwain at wneud datganiadau gwleidyddol ac nad oeddent yn dymuno mynd ar ôl Cyhoeddiadau gan Arweinwyr y 3 Grŵp Gwrthblaid Mwyaf. O ran amseriad cyfarfodydd y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais electronig ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor ar 24 Gorffennaf 2019 i

weld a ddylid archwilio cyfarfodydd gyda'r nos ai peidio. O'r 45 o Aelodau a oedd yn bresennol, pleidleisiodd 17 o aelodau o blaid cynnal cyfarfodydd gyda'r nos. Argymhellodd y Gweithgor, yn sgil y bleidlais, na fyddai cynnal cyfarfodydd gyda'r nos yn cael ei archwilio ymhellach tan y weinyddiaeth nesaf.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor fod yr adolygiad wedi cynnwys edrych ar weithdrefn galw-yn-ôl y Cyngor, er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol o fewn y strwythur Craffu presennol. Gwnaed gwaith ymchwil gan Dîm y Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â'r prosesau galw-yn-ôl sydd ar waith mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Argymhellodd y Gweithgor y dylid ymestyn y cyfnod o rybudd a geir yn sgil cyhoeddi penderfyniad, a hynny o'r 3 diwrnod gwaith clir presennol i 5 diwrnod gwaith clir, er mwyn bod yn fwy tryloyw ac i Aelodau'r meinciau cefn gael mwy o gyfle i alw penderfyniad yn ôl. Argymhellodd y Gweithgor y dylai'r cyfnod amser ar gyfer cynnal Pwyllgor Trosolwg a Chraffu aros o fewn 5 diwrnod gwaith clir. Argymhellodd y Gweithgor y dylai unrhyw Aelod, gan gynnwys Cadeirydd sy'n galw penderfyniad yn ôl, gael ei eithrio o'r penderfyniadau a wneir yn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor, ond iddynt gael eu gwahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor i gefnogi'r cais i'w alw yn ôl.

Hysbyswyd y Cyngor gan y Swyddog Monitro fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ystyried y canfyddiadau yn eu cyfarfod ar 17 Hydref 2019, ac wedi cymeradwyo rhoi argymhellion y Gweithgor Cyfansoddiad gerbron y Cyngor i'w hystyried.

Dywedodd y Cynghorydd Voisey, a gyflwynodd y cais i'r Swyddog Monitro, wrth y Cyngor ei fod wedi gwneud hynny gan ei fod yn credu nad oedd y cyhoedd yn derbyn atebion i gwestiynau yn gyhoeddus. Roedd yr Aelod o'r farn bod y cynnydd yn y cyfnod amser ar gyfer cwestiynau a chynigion i 10 diwrnod yn un dros dro ac y dylid ei adfer i 5 diwrnod. Credai'r Aelod hefyd y gellid ymdrin â chyhoeddiadau'r Weithrediaeth a'r Prif Weithredwr drwy ddatganiadau i'r wasg. Roedd adroddiad yr Arweinydd yn rhoi cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau i'r Arweinydd, ni fyddai modd rhoi'r cyfle hwn i Aelodau pe bai Adroddiad yr Arweinydd yn cael ei ailenwi'n Gyhoeddiadau'r Arweinydd. O ran y cyhoeddiadau gan Grwpiau'r Gwrthbleidiau, dywedodd yr Aelod mai siambr wleidyddol oedd hon, a bod gan yr Aelodau hawl i wneud datganiadau gwleidyddol. Credai fod y cais i gwestiynu'r Arweinydd a'r Cabinet wedi'i golli o'r adroddiad a gofynnodd am i hyn gael ei adolygu. Gofynnodd yr Aelod hefyd fod amseriad cyfarfodydd Cyngor yn dechrau ar sail gyfrannol yn ôl dewisiadau'r Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Venables, a gadeiriodd y Gweithgor Cyfansoddiad ac sydd hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fod y Gweithgor wedi cyfarfod ar 2 achlysur a'i fod wedi craffu'n gadarn ar yr elfennau o'r Cyfansoddiad a oedd yn rhan o'r adolygiad. Dywedodd y Cynghorydd Howells, sy'n aelod o'r Gweithgor Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fod y Gweithgor wedi edrych ar ymchwil a wnaed gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd ac wedi ystyried yr opsiynau a oedd ar gael. Ailadroddodd fod y Grŵp yn un trawsbleidiol.

Mynegodd y Cynghorydd Giffard bryder o ran yr argymhelliad y dylai unrhyw Aelod, gan gynnwys Cadeirydd sy'n galw penderfyniad yn ôl, gael ei eithrio o'r penderfyniadau a wneir yn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor, ond iddynt gael eu gwahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor i gefnogi'r cais i'w alw yn ôl. Mynegodd bryder y byddai'r Pwyllgorau sy'n ystyried galw-yn-ôl yn anghytbwys pe na bai'r Aelodau sy'n llofnodi'r alwad yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau yn y Pwyllgor. Hysbyswyd y Cyngor gan y Swyddog Monitro fod y Gweithgor Cyfansoddiad wedi ystyried y broses galw-yn-ôl yn ystod yr adolygiad gan fod galwad wedi bod yn ystod y cyfnod a theimlwyd y gellid dysgu gwersi. Ystyriwyd, er mwyn osgoi'r canfyddiad o fod yn ddiduedd a rhag-benderfynu, na ddylai Aelodau sy'n galw penderfyniad eistedd ar y Pwyllgor sy'n ystyried

y mater. Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor fod angen ystyried y defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol ynghyd â chanfyddiad y cyhoedd.
Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor fod nifer fawr o Aelodau wedi llofnodi'r cais mwyaf diweddar, a allai fod wedi arwain at beidio â rhoi cworwm i'r cyfarfod pe baent i gyd wedi datgan eu bod wedi penderfynu ymlaen llaw.

Roedd y Cynghorydd Watts o'r farn y dylai'r Aelodau gael y gallu i ofyn cwestiynau nas cyflwynwyd o flaen llaw. Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor fod y Gweithgor Cyfansoddiadol wedi dod i'r casgliad na fyddai gan yr Aelod Cabinet y manylion o bosibl i ymateb yn llawn i gwestiynau a oedd yn cael eu rhoi yn y cyfarfod. Teimlent ei bod yn fwy priodol gofyn cwestiynau a gyflwynwyd er mwyn rhoi cyfle i baratoi ateb cynhwysfawr. Dywedodd y Cynghorydd Venables wrth y Cyngor fod pob elfen o'r adolygiad wedi'i hystyried yn gadarn gan Weithgor y Cyfansoddiad. Dywedodd y Cynghorydd Patel ei bod wedi mynychu un o gyfarfodydd y Gweithgor a'i bod wedi esbonio ei bod hi, fel Aelod Cabinet, yn hoff o dderbyn atebion cywir i'w chwestiynau. Credai na fyddai Aelodau'r Cabinet yn meddu ar y manylder hwnnw yng nghyfarfodydd y Cyngor. Roedd y Cynghorydd Watts yn credu pe na bai Aelodau'n cael cyfle i ofyn cwestiynau, y byddai'n dirymu unrhyw drafodaeth, ac na allai Aelodau leisio eu barn. Dywedodd y Maer wrth y Cyngor y gallai'r Aelod sy'n gofyn y cwestiwn ofyn cwestiwn atodol a gall yr Aelodau ofyn dau gwestiwn arall.

Roedd y Cynghorydd T Thomas yn credu y dylai pob Aelod o'r Cyngor fod wedi gallu cyfrannu at yr adolygiad o'r Cyfansoddiad. Dywedodd y Maer fod yr adolygiad wedi'i ddirprwyo i'r Gweithgor Trawsbleidiol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Roedd y Cynghorydd T Thomas hefyd wedi credu bod y cynnydd yn yr amserlen i gyflwyno cwestiynau a chynigion yn un dros dro o ganlyniad i weithredu Safonau'r Gymraeg.

Mynegodd y Cynghorydd N Clarke bryder hefyd y gellid eithrio Aelodau sy'n llofnodi cais i alw-yn-ôl rhag eistedd ar y Pwyllgor sy'n clywed y cais, ac roedd o'r farn y dylid cynyddu nifer yr Aelodau sy'n eistedd ar Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn osgoi bod heb gworwm.

Roedd y Cynghorydd Burnett yn croesawu'r ffaith y gallai Aelodau'r Cabinet wneud cyhoeddiadau a chyflwyno eitemau, ac roedd o'r farn na wnaed datganiadau gwleidyddol yn ystod y cyhoeddiadau.

Teimlai'r Cynghorydd Penhale Thomas y dylid plismona cwestiynau atodol gan groesawu atebion i Gwestiynau a ddanfonir at yr Aelodau 24 awr cyn y cyfarfod. Croesawodd hefyd gyhoeddiadau byrrach gan Aelodau'r Cabinet, ond credai y dylai cyhoeddiadau gael eu hestyn i bob grŵp gwleidyddol hefyd a dywedodd hefyd mai siambr wleidyddol yw hon.

Dywedodd y Cynghorydd M Clarke mai diben galw-yn-ôl yw caniatáu i Aelodau gael golwg arall ar benderfyniad, ac na ddylai'r weinyddiaeth ofni cael golwg arall ar benderfyniadau a wneir. Roedd hefyd o'r farn y gallai'r weinyddiaeth gael rhagdueddiadau o ran penderfyniadau y maent am eu gwneud. Dywedodd fod ceisiadau i alw-yn-ôl yn brin ac y byddai Pwyllgorau'n gweithredu'n gyfrifol.

Dywedodd y Cynghorydd Voisey y dylid caniatáu cyfnod o 15 munud ar gyfer cwestiynau nas cyflwynwyd a bod aelodau'r Cabinet yn brofiadol ac yn cael eu cefnogi gan swyddogion. Mynegodd bryder nad oedd wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd y Gweithgor Cyfansoddiad ac nad oedd y cofnodion ar gael i'r Aelodau. Dywedodd y Swyddog Monitro fod y materion a godwyd gan y Cynghorydd Voisey wedi

cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, a ddirprwyodd y mater i'r Gweithgor Cyfansoddiad a sefydlwyd ganddynt.

Roedd y Cynghorydd Spanswick o'r farn y dylai'r Aelodau ddatgan buddiant os oeddent wedi rhag-benderfynu neu â rhagdueddiad mewn perthynas â phenderfyniad a alwyd-yn-ôl, ac mai'r hyn oedd ei angen oedd adolygiad o'r broses graffu.

Roedd y Cynghorydd Vidal o'r farn y dylid ystyried safbwyntiau'r 17 aelod a bleidleisiodd o blaid cyfarfodydd gyda'r nos. Dywedodd y Swyddog Monitro mai pleidlais anffurfiol oedd hon gan fod y Gweithgor Cyfansoddiadol am gael barn ddangosol yr Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Webster ei bod wedi mynychu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gyda meddwl agored ac wedi gadael gwleidyddiaeth wrth y drws. Nododd hefyd fod angen i Aelodau fod yn ymwybodol o'r sylwadau a wnânt ar y cyfryngau cymdeithasol. Hysbysodd Swyddog Monitro'r Cyngor fod ymholiadau wedi'u derbyn gan aelodau'r cyhoedd ynghylch a oedd Aelodau wedi rhag-benderfynu o ganlyniad i sylwadau a wnaed ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd y Cynghorydd PA Davies fod yr argymhellion a wnaed gan Weithgor y Cyfansoddiad ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn rhai trawsbleidiol. Dywedodd hefyd fod yn rhaid i gyfieithiadau fod yn gywir ac yn amserol.

Dywedodd yr Arweinydd mai grŵp trawsbleidiol oedd y Gweithgor Cyfansoddiad a bod ei Grŵp wedi derbyn adborth ar eu gwaith fel rhan o'r adolygiad. Dywedodd nad gofyn cwestiynau i'r Aelodau oedd diben y Cyngor, ond gwneud penderfyniadau a gosod polisi. Dywedodd hefyd fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi rhoi tasg i'r Gweithgor Cyfansoddiadol i lunio argymhellion, a bod y Gweithgor wedi ceisio diogelu'r Aelodau wrth alw penderfyniad yn ôl. Hysbysodd y Cynghorydd Penhale Thomas y Cyngor nad oes yr un aelod o'i grŵp yn eistedd ar y Gweithgor. Credai hefyd fod angen i Aelodau allu gofyn cwestiynau strategol yn y Cyngor.

Derbyniwyd cynnig gan y Cynghorydd Watts y dylai cynigion ar gyfer y broses o alw penderfyniadau yn ôl gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Ni chafodd ei secondio a methodd.

Derbyniwyd cynnig gan y Cynghorydd Giffard i ddileu paragraff 4.7.4 yr adroddiad. Gofynnodd am sicrwydd bod y Cyngor yn credu mai Pwyllgor cytbwys yn wleidyddol fyddai'n clywed unrhyw gais i alw penderfyniad yn ôl. Eiliwyd gan y Cynghorydd N Clarke.

Hysbyswyd y Cyngor gan y Swyddog Monitro na fyddai paragraff 4.7.4 yn cael ei weithredu ac y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r broses galw-yn-ôl.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Fod y Cyngor yn:

(1) Nodi'r ymchwil a'r gwaith a wnaed gan Weithgor y Cyfansoddiad ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;

2) Cymeradwyo'r argymhellion a wnaed gan y Gweithgor a diwygio'r Cyfansoddiad yn unol â hynny ac eithrio paragraff 4.7.4

3) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro i wneud mân newidiadau i'r Cyfansoddiad i gynnwys diwygio gwallau teipograffyddol a drafftio, diweddaru newidiadau

deddfwriaethol, a drafftio gwelliannau er mwyn gwella eglurder a chael gwared ar fân anomaleddau.

376. DERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL GAN Y CYNGHORYDD A HUSSAIN I'R AELOD CABINET DROS GYMUNEDAU

**Cwestiwn gan y Cynghorydd A Hussain i'r Aelod Cabinet dros Gymunedau**

Yn y Fwrdeistref Sirol ceir llawer o fylchau yn y llwybrau beicio a cherdded. Sut mae'r Aelod Cabinet yn bwriadu mynd i'r afael â hyn i annog teithio llesol?

**Ymateb yr Aelod Cabinet**

Mae map rhwydwaith teithio byw'r Cyngor mewn dwy ran: a) y map llwybr presennol (ERM) sy'n seiliedig ar y llwybrau beicio a oedd yn bodoli cyn deddfu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013; b) y map rhwydwaith integredig (INM) sy'n seiliedig ar lwybrau arfaethedig. Roedd y cynlluniau arfaethedig o fewn yr INM yn cynnwys y nodau canlynol:
1. Gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol gan gynnwys canol trefi, safleoedd cyflogaeth, ardaloedd manwerthu a chanolfannau trafnidiaeth;
2. Gwella mynediad i gyfleusterau addysg fel ysgolion a cholegau;
3. Gwella, ac ehangu'r rhwydwaith beicio strategol presennol yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r wybodaeth ategol sy'n cyd-fynd â'r INM yn rhoi cyngor pellach fod y llwybrau a nodir yn "aliniadau dangosol a allai newid wrth i lwybrau gael eu datblygu ymhellach. Bydd datblygu a chyflawni'r cynigion a ddangosir ar yr INM yn dibynnu ar faint o gyllid fydd ar gael.

Mae'r pwyntiau a nodir uchod yn ategu'r meini prawf a nodwyd yn y canllawiau darparu ar gyfer teithio llesol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ynddo, mae Atodiad B yn cynnwys 9 anheddiad lle'r oedd yn rhaid nodi llwybrau, mae dolen ato i'w gael isod.

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2017-09/statutory-guidance-for-the-delivery-of-the-active-travel-wales-act-2013.pdf

Mae'r 13 anheddiad fel a ganlyn:
• Ar gyfer dalgylch Pen-y-bont ar Ogwr: Pen-y-bont ar Ogwr, Sarn, Trelales.
• Ar gyfer dalgylchoedd Maesteg: Croeserw, Cymer, Maesteg.
• Ar gyfer anheddiad Bro Ogwr/Nant-y-moel: Nantymoel, Bro Ogwr.
• Ar gyfer anheddiad Hendreforgan/Gilfach Goch: Gilfach Goch.
• Y ddau ddalgylch arall yw'r Pîl, Pencoed a Phontycymer.

Pan fydd aneddiadau'n pontio awdurdodau, y cyd-awdurdodau sy'n gyfrifol.

Er bod y teithio llesol a ddarparir gan INM yn sylfaen i'r rhwydwaith teithio llesol cynradd yn y Fwrdeistref Sirol, nid yw datblygu rhwydwaith cynhwysfawr yn rhywbeth sy'n gyfyngedig i'r INM. Mae'r INM yn darparu rhwydwaith sylfaenol a allai gysylltu â'r llwybrau teithio llesol a nodir fel rhan o'r broses datblygu defnydd tir ac i'w darparu gan ddatblygwyr. Bydd mesurau eraill fel llwybrau diogel i ysgolion a chymunedau yn cael eu harchwilio i gwmpasu ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r INM.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hussain at Fap 8 yr INM a oedd yn dangos cynigion ar gyfer y dyfodol yn y Sir a'r cyffiniau, a gofynnodd gwestiwn atodol, sef a allai'r Aelod Cabinet helpu'r cyhoedd drwy osod croesfan i gerddwyr wrth Gyffordd Tondu Road a'r Eglwys Ffordd, ger yr orsaf betrol, a fyddai'n caniatáu i'r trigolion feicio a cherdded i Ben-y-bont ar Ogwr?

Addawodd yr Aelod Cabinet Cymunedau i siarad â'r Cynghorydd Hussain mewn perthynas â'r cais a wnaed yn ei gwestiwn atodol.

377. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.